OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1332

# Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001

## Rhan IV

### Hysbysiadau

**Cyflwyno hysbysiadau**

**20.** Gall unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno i feddiannydd parsel o dir yn unol a rheoliad 8(1) neu (3) neu i weithredydd lladd-dy yn unol a rheoliad 15 neu reoliad 17 gael ei gyflwyno—

(a) drwy fynd ag ef ato neu ati;

(b) drwy ei adael yn ei breswylfa neu ei fan busnes diwethaf, neu, os yw wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad, yn y cyfeiriad hwnnw;

(c) drwy ei anfon mewn llythyr cofrestredig a dalwyd ymlaen llaw, neu drwy'r gwasanaeth dosbarthiad cofnodedig, wedi'i gyfeirio ato neu ati yn ei breswylfa neu ei fan busnes arferol neu'r un diwethaf a oedd yn hysbys neu, os yw wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad, yn y cyfeiriad hwnnw; neu

(ch) yn achos corff corfforaethol, drwy fynd ag ef at ysgrifennydd neu glerc y corff corfforaethol yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa, neu drwy ei anfon mewn llythyr cofrestredig a dalwyd ymlaen llaw, neu drwy'r gwasanaeth dosbarthiad cofnodedig, wedi'i gyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y corff corfforaethol hwnnw yn y swyddfa honno.